



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Llandrindod
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandrindod
Lôn Trefonnen
Llandrindod
Powys
LD1 5EP**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2019

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llandrindod. Mae'n cwrdd mewn ystafell hunangynhaliol yn Ysgol Trefonnen, Llandrindod, yn awdurdod lleol Powys. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum bore'r wythnos, rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng tair a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 11 o blant yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac nid oes un o'r plant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys y ddau arweinydd. Dechreuodd yr arweinwyr yn eu swyddi ym mis Mawrth a mis Tachwedd 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2017. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Chwefror 2012.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gan ystyried eu manau cychwyn
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu
- y rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn synhwyrol ac yn dangos parch tuag at oedolion a'i gilydd
- ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh, corfforol a chreadigol y plant
- gwaith dyddiol yr ymarferwyr a'u gwybodaeth berthnasol yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus
- gofal a chymorth diwyd yr ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn llwyddiannus ymysg y plant
- ymarferwyr yn defnyddio adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinwyr yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- gweithdrefnau hunanwerthuso sefydlog yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r adnoddau yn gwella'n gyson dros amser
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant perthnasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- yr arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i wella'r ddarpariaeth
- partneriaethau pwrpasol yn bodoli rhwng rhieni a gofalwyr, yr ysgol a gwasanaethau arbenigol
- arferion cadarn gan y pwyllgor rheoli i oruchwylio a gwerthuso'r ddarpariaeth ac effeithiolrwydd yr ymarferwyr a'r arweinwyr

Argymhellion

- A1 Gwella'r ddarpariaeth o weithgareddau llythrennedd yn yr ardal allanol
- A2 Sicrhau bod yr ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol a chyson i wella safonau llafar y plant
- A3 Olrhain cynnydd y plant yn effeithiol i'w symud ymlaen at y camau nesaf yn eu dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh o'u manau cychwyn sydd, ar y cyfan, yn is na'r cyfartaledd disgwylidig. Mae medrau cychwynol bron pob un o'r plant yn isel yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill yn dda ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Gwelir hyn pan fyddant yn llanw blychau gwahanol â dŵr ac wrth iddynt ymholi i nodweddion brigau a dail yn y twb natur. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir ac yn ymateb i drafodaethau ar y cyd, trwy ddefnyddio Saesneg ac ychydig o Gymraeg. Mae'r lleiafrif yn hyderus yn nodi nodweddion y tywydd a threfnu dyddiau'r wythnos yn y Gymraeg o dan arweiniad ymarferwr. Mae'r lleiafrif yn defnyddio geiriau Cymraeg ac ymadroddion syml yn gymwys yn ystod gweithgareddau, er enghraifft wrth adeiladu tyrrau â blociau a pheintio a phrintio gyda phaent llachar. Fodd bynnag, nid ydynt yw'r mwyafrif yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon hyderus a Saesneg yw prif gyfrwng iaith y plant wrth iddynt gyfathrebu.

Mae rhan fwyaf y plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac ystyried y cynnwys gyda'i gilydd ac oedolion yn yr ardal lyfrau yn effeithiol. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn synhwyrol ac yn trin y llyfrau fel darllenwyr hyderus. O ganlyniad, maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys storiâu amrywiol fel dilyn helyntion cymeriadau sy'n chwarae â balŵn a chwythu swigod.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau'n bwrpasol gydag amrywiaeth o gyfryngau fel sialc, creonau, pensiliau a phaent. Mae ychydig yn ceisio ysgrifennu eu henwau a nodi gyda marciau cyfrif sawl ffrwyth gwahanol sydd mewn bowlen yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac mae llawer yn esbonio diben ysgrifennu yn synhwyrol.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol yn y Gymraeg ac mewn cyd-destunau cywir. Maent yn cyfrif i ddeg yn hyderus ac yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn trafod nodweddion siapiau gwahanol yn dda ac yn nodi'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhyngddynt yn ddeallus. Mae llawer yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn a gwrthrychau 'bach', 'mawr' a 'chanolig' yn hyderus yn yr ardal adeiladu ac ar daith o gwmpas tir yr ysgol. Mae llawer yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio blychau â thywod a dŵr i gymharu 'llawn' a 'gwag', a 'thrw' ac 'ysgafn', yn yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn didoli cylchoedd pren a cherrig mân, sydd â rhifau arnynt, yn eu trefn yn ddeallus ac yn cymharu cerbydau 'araf' a 'chflym' yn dda wrth eu rollo i lawr llethr a thrwy silindrau.

Mae rhan fwyaf y plant yn dechrau defnyddio technoleg yn llwyddiannus wrth ddefnyddio llechi a theganau electronig, sgrîn ryngweithiol a chamerâu. Yn ogystal, maent yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau ar y llechi a'r sgrîn i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio'u medrau corfforol yn llwyddiannus wrth ddringo a neidio'n egnïol ar gyfarpar anturus yn neuadd yr ysgol. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a chreadigol da trwy weithgareddau diddorol sy'n effeithio'n bwrpasol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn creu patrymau diddorol wrth rolïo peli drwy baent mewn bocs a gwehyddu brwyn lliwgar trwy dyllau colandr. Maent yn gwrando ar gerddoriaeth o rigymau Cymreig yn astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg wrth ddawnsio. Yn ogystal, maent yn creu synau tawel a swnllyd gydag offer y gegin yn yr ardal allanol ac yn esbonio'r gwahaniaeth rhyngddynt yn synhwyrol.

Lles: Da

Mae rhan fwyaf y plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Maent yn ymddwyn yn synhwyrol ac yn dangos parch tuag at oedolion a'i gilydd. Mae llawer yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw eu hymroddiad i dacluso ar ôl chwarae rhydd ac i wisgo dillad allanol ac esgidiau glaw cyn ymholi ac ymchwilio yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n gydwybodol yn ystod y gweithgareddau. Maent yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. O ganlyniad, maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel torri siâp cragen allan o does gyda chyllell a mesur hyd blociau â thâp yn yr ardal adeiladu.

Mae rhan fwyaf y plant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae annibynnol. Maent yn mynegi barn a gwneud dewisiadau personol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt benderfynu symud o'r adeilad i'r ardal allanol i brofi gweithgareddau newydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr hyderus a chynhyrchiol.

Mae ymwybyddiaeth bron pob un o'r plant o hylendid yn gadarn. Maent yn deall bod cadw'n iach yn bwysig. Maent yn cofio bod dyletswydd arnynt i osgoi heintiau, er enghraifft trwy olchi dwylo ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau yn yr awyr agored.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Maent yn darparu gweithgareddau a phrofiadau dysgu difyr, sy'n targedu diddordebau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu'n ddysgwyr hyderus ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm dyddiol a thymor hir yn effeithio'n dda ar brofiadau'r plant. Mae'n deillio o ddewisiadau personol y plant a'u penderfyniadau mewn grŵp. Mae'r tasgau dyddiol a ddarperir, ar draws yr holl feysydd dysgu, yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson, naill ai'n annibynnol neu o dan arweiniad ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd

gwerthfawr i sbarduno dysgu unigolion. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd da i gymysgu pridd yn y gegin fwd, arbrofi gyda dŵr a thywod ac ymweld ag archfarchnad leol i bwysu a phrynu ffrwythau.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n drefnus a thrwyadl i sicrhau dilyniant, parhad a chynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys heriau pwrpasol i ddatrys problemau ac ymestyn eu medrau. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd difyr i ddefnyddio cyfarpar mathemategol, fel defnyddio blychau gwahanol yn y dŵr i gymharu cyfaint. Yn ogystal, maent yn cynllunio heriau llythrennedd synhwyrol fel copïo gwahanol lythrennau yn y tywod, ar fyrddau du ac ar bapur. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth o weithgareddau llythrennedd yn gyson ar draws yr ardaloedd dysgu tu fewn ac yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, camerâu a sgrîn ryngweithiol. O ganlyniad, maent yn cynnig gweithgareddau rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn bwrpasol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau'n llwyddiannus i gyfatebu â'r themâu a gynllunnir ar y cyd.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a choginio prydau traddodiadol. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau Cymraeg bron pob un o'r plant yn briodol. Maent yn trafod rhifau, lliwiau, nodweddion y tywydd, ailadrodd ymadroddion syml a chanu hwiangerddi yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r iaith yn datblygu'n addas.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol yn fwriadus wrth ganolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant. Maent yn gweithio'n ddiwyd â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau llwyddiannus, sy'n cymell y plant i gydweithio a dysgu'n ymarferol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i yrru'n fywiog ar feiciau a cherbydau a thrafod diwylliant a bwyd gwledydd tramor fel Ffrainc.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn gan y plant o'r dref a'r ardal. Mae'r ddarpariaeth i godi ymwybyddiaeth y plant o bobl eu cymuned yn dda trwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad, fel glanweithydd deintyddol, swyddogion y gwasanaethau brys a gweithwraig o'r archfarchnad leol.

Addysgu: Digonol

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen. Mae eu gwaith dyddiol a'u gwybodaeth berthnasol yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus.

Mae cyflwyniadau torfol yr ymarferwyr yn sionc a phwrpasol ac yn ysgogi'r plant i ddechrau ar eu gweithgareddau'n brydlon. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau ac yn esbonio bwriadau'r gweithgareddau ffocws yn dda. Mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i wneud marciau, copïo llythrennau a

thrafod llyfrau yn dda. Yn ogystal, maent yn datblygu medrau rhifedd a TGCh y plant yn fwiadus. Fodd bynnag, nid ydynt yn creu digon o barodrwydd ymysg y plant i gyfathrebu yn y Gymraeg. Er bod yr ymarferwyr yn holi'r plant yn addas yn y Gymraeg, mae'r diffyg hyder sydd ganddynt ynglŷn â'r iaith a'r parodrwydd i droi i'r Saesneg yn cyfyngu datblygiad y plant a'u gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogelwch diwyd yn perthyn i'w gwaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o ba bryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu diddori ymhellach a'u cymell i lwyddo. Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i adeiladu tyrrau gyda siapiau tri dimensiwn a thrafod yn frwd y rhew a'r iâ sydd ar dir yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod awydd y plant i ddysgu a gwella eu hymdrechion yn uchel.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i drafod eu gwaith ac ymdrechion eraill yn synhwyrol. Yn ogystal, maent yn trafod gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ddeallus. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd. Maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau dyddiol ar daflenni cofnodi defnyddiol ac yn dechrau targedu'r camau nesaf yn nysgu unigolion yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt yn olrhain eu cynnydd yn effeithiol a symud y plant ymlaen at ddeilliannau heriol yn ddigon cyson.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalgwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd y plant i rieni, sy'n adlewyrchu datblygiad eu plant yn glir a chywrain.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd, i feithrin y gwerthoedd hyn yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o blant yn ystyried teimladau eu cyfoedion yn ddeallus, yn trin ei gilydd yn deg ac yn parchu eraill, gan gynnwys oedolion.

Mae'r holl ymarferwyr yn creu awyrgylch diddorol a myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i'r plant feddwl, trafod teimladau a dweud diolch. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo gyda'i gilydd a gweini byrbrydau. Mae'r arferion hyn, yn ogystal â thacluso cyfarpar a chymryd eu tro fel helpwyr y dydd, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod gweithgareddau cymdeithasol.

Mae trefniadau buddiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llyisiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw ac yn arwain at fywydau iachus.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Yn ogystal, maent yn compostio dail ar safle'r ysgol yn dda. Mae'r arferion hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn dileu unrhyw aflonyddwch ac ymddygiad gwael yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn wylidwyr pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu manau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. Mae'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant. Maent yn eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol a chydweithio'n dda gyda sefydliadau arbenigol lleol i dargedu anghenion unigolion. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn effeithiol, pan fo'r angen yn codi.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant. Mae hyn yn arwain at greu cymuned gwbl gynhwysol lle mae'r holl blant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn drylwyr mewn modd cadarnhaol a gofalus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod o adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau ysgogol fel hela am siapiau gwahanol ar dir yr ysgol. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi'r plant i'w hestyn a'u rhoi i gadw heb ymyrraeth oedolion. Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb ymysg y plant.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a'u hagweddu brwdfrydig. Maent yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddathlu gwyliau o wledydd tramor fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Yn ogystal, mae gweithgareddau dyddiol fel chwarae gyda doliau o wahanol ddiwylliannau, yn gwella ymwybyddiaeth y plant o debygrwydd a gwahaniaethau pobl ein byd.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn cael ei gynnal yn effeithiol ac mae'n ddiogel. Defnyddir yr holl ofod yn yr adeilad a thu allan yn synhwyrol ar gyfer darparu gweithgareddau bywiog a difyr. Mae'r ardal allanol yn cynnwys ardaloedd plannu a thyfu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd heriol i ddatrys problemau gyda dŵr, tywod a chegin fwd. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r holl ardaloedd hyn yn greadigol a phwrpasol, sy'n cynnwys ardaloedd allanol yr ysgol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol yn effeithiol, drwy fynd â'r plant i amryw leoedd i rannu yng ngweithgareddau eu milltir sgwâr, fel teithiau o gwmpas y dref ac archfarchnad gyfagos.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn arwain y lleoliad yn effeithiol. Mae ganddynt weledigaeth bwrpasol sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth o brofiadau dysgu ysgogol yn effeithio'n dda ar fedrau a lles y plant. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ymarferwraig arall, yr ysgol a'r pwyllgor rheoli. Maent yn glynu at amserlen benodol ac yn trefnu ardaloedd dysgu difyr tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae gweithdrefnau rheolaethol yr arweinwyr yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau buddiol, fel datblygu gwell ddarpariaeth o rifedd, mwy o brofiadau amlddiwylliannol i'r plant a gwella'r cyfarpar a meddalwedd TGCh.

Mae amcanion a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n glir ar sicrhau darpariaeth effeithiol a rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn deg a thyner wrth ddelio â phlant. Mae ganddynt ddisgwyliadau synhwyrol o bob un plentyn ynglŷn â'u hymddygiad, eu parodrydd i weithio a'u cyflawniadau. Maent yn llwyddo i'w cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol a chefnogol. O ganlyniad, mae arferion dyddiol yr ymarferwyr gan amlaf yn bodloni anghenion y plant ac yn hyrwyddo eu llwyddiannau'n ddeallus. Er hyn, nid oes gan arweinwyr bob tro ddisgwyliadau digon uchel ynglŷn â datblygu'r iaith Gymraeg yn rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu trwy ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn well a chreu gwelliannau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd difyr i wneud marciau yn yr adeilad a defnyddio neuadd a thir yr ysgol am weithgareddau corfforol. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli sefydlog a chydwybodol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a difyr. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson. Mae'r pwyllgor rheoli a'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn dda i gynnal a gwella'u harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinwyr ac yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae ymroddiad y pwyllgor rheoli yn dda.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad yn sefydlog ac yn gwbl weithredol. Mae'r arweinwyr, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cyson a meintiol i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth, drwy arferion blynyddol. O ganlyniad, mae diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso yn bodoli sydd wedi arwain at welliannau cyson i waith a darpariaeth y lleoliad. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardaloedd dysgu i gynnwys mwy o brofiadau rhifedd sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd y plant.

Mae'r ymarferwyr yn ystyried barnau ei gilydd a rhieni a gofawyr yn effeithiol fel rhan o'r broses hunanwerthuso. Mae blwch sylwadau yn y cyntedd a holiaduron defnyddiol ar gael i rieni a gofawyr i fynegi eu barnau. O ganlyniad, mae gwelliannau amlwg wedi deillio o'r ystyriaethau hyn fel sesiwn yr wythnos i rieni a gofawyr i edrych ar waith eu plant a chyfleoedd iddynt gymryd rhan yng ngweithgareddau'r lleoliad.

Mae cynllun datblygu'r lleoliad yn nodi'r meysydd ar gyfer gwella yn effeithiol. Mae'r targedau yn y cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o weithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad. Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn eu lle. Maent yn effeithio'n fwiadus ar dargedau penodol i wella gwaith cyfredol y lleoliad a chynllunio datblygiadau deallus ar gyfer y dyfodol.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin ynglŷn â'r ddarpariaeth ac agweddau rheolaethol. Maent yn gweithredu ar eu cyngor yn rheolaidd. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn ddeallus i gyfrannu at yr arferion asesu a nodi manau cychwyn perthnasol ar gyfer y plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae cyswllt cadarnhaol â'r ysgol. Mae staff penodol o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i gefnogi. Mae'r lleoliad a'r dosbarth Derbyn drws nesaf i'w gilydd ac mae'r plant yn symud am sesiynau penodol gyda phlant yr ysgol yn ystod yr wythnos. Er enghraifft, maent yn derbyn gweithgareddau ffonog a chyfleoedd defnyddiol i ganu yn rheolaidd. Mae hyn yn cryfhau trefniadau pontio'r plant yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofawyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy glychlythron a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr wedi creu gwell ymwybyddiaeth i rieni o weithgareddau'r plant yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys annog rhieni i ymuno â'u plant am sesiwn ganu a chyfle i weld eu gwaith unwaith yr wythnos.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau cymunedol i godi arian a chefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol yn rheolaidd. Mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd ac amddiffyn plant.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy rannu dyletswyddau'n ddoeth a dyrannu adnoddau'n effeithiol. Maent yn cydweithio'n fwriadus gyda'r ymarferwyr eraill. Yn ogystal, maent yn defnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad yn ddeallus i dargedu hyfforddiant pwrpasol, i fodloni anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn sefydlog ac yn effeithio ar arferion dyddiol y lleoliad yn gadarn.

Mae arferion rheoli'r arweinwyr yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn synhwyrol. Mae'r holl ymarferwyr yn canolbwyntio ar gynnig profiadau difyr ac adnoddau diddorol i gefnogi dysgu'r plant yn dda, fel caledwedd a meddalwedd TGCh ac ardaloedd anturus ac addysgiadol yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu lwyddiannus, lle mae cydweithrediad effeithiol rhwng yr holl ymarferwyr yn canolbwyntio ar wella deilliannau'r plant.

Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn ddeallus ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol â thargedau'r cynllun datblygu yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol i wella'r ddarpariaeth, cynnal profiadau dysgu ysgogol a chreu cynnydd yn neilliannau'r plant. Maent yn gwneud defnydd synhwyrol o grantiau allanol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant, fel grant Mudiad Meithrin am ddillad allanol.

O ystyried cynnydd cyffredinol y plant, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Rhestr termau

AGC	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg